Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

| | |
|---|---|
| Teitl: | Dirprwy Bennaeth |
| Lleoliad: | Ysgol Gyfun Tredegar |
| Cyfarwyddiaeth: | Addysg - Ysgolion |
| Cyflog: | Pwyntiau Ystod Cyflog Arwain L19 - L23<br>(£78,910 - £87,027 y flwyddyn) |
| Oriau: | Llawn Amser |

Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Tredegar am benodi Dirprwy Bennaeth rhagorol i gefnogi'r Pennaeth yn llawn yn nhaith yr ysgol tuag at ragoriaeth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn angerddol am yrru ein hysgol yn ei blaen ac yn gallu ysgogi a datblygu staff fel rhan o dîm dygn, sy'n ymfalchïo yn ei natur gydweithredol a chefnogol.

Hoffem benodi arweinydd uchelgeisiol ac ysbrydoledig a fydd yn gwneud cyfraniadau rhagorol at yr uwch dîm arwain a datblygiad yr ysgol yn y dyfodol.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus hanes amlwg o berfformiad eithriadol mewn arweinyddiaeth ac addysgu ac yn meddu ar y gallu amlwg i gyflawni gofynion **unrhyw** rôl arwain uwch yn effeithiol.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac rydym yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Cynhelir prosesau sgrinio cyn cyflogaeth trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Mae'r swydd hon yn gofyn am gofrestriad gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) o dan y categori Athro Ysgol a bydd angen i’r cofrestrid fod ar waith cyn cychwyn yn y rôl. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar y wefan ganlynol http://www.ewc.wales/ neu drwy ffonio 02920 460099.

**Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau i'r ysgol drwy e-bostio Stephanie French (Rheolwr Busnes) yn stephanie.french@tredegarschool.cymru**

Mae gan ymgeiswyr sydd â diddordeb gyfle i ymweld â'r ysgol Ddydd Mawrth 25 Mawrth 2025. Os hoffech chi ddod, i wneud apwyntiad cysylltwch â **Stephanie French (Rheolwr Busnes) yn stephanie.french@tredegarschool.cymru** er mwyn i ni allu cadarnhau trefniadau gyda chi.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | **09:00am Dydd Llun 31 Mawrth 2025** |
| **Ymweliadau Ysgol** | **Dydd Mawrth 25 Mawrth 2025** |
| **Dyddiadau cyfweld** | **Dydd Iau 10 a Dydd Gwener 11 Ebrill 2025** |